`

Y Comisiwn Etholiadol

Isetholiadau Senedd y DU

Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

Rhan 5 o 6 – Eich hawl i fynychu digwyddiadau etholiadol allweddol

Tachwedd 2018

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i isetholiadau Senedd y DU ym Mhrydain Fawr. Gellir cael mynediad at ein canllawiau ac adnoddau ar gyfer etholiadau eraill yn y DU ar ein gwefan ar: http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/i-am-a/candidate-or-agent.

Cynnwys

Gwybodaeth hanfodol 3
Agor pleidleisiau post 3
Beth yw pleidleisio post? 4
Beth mae'r pecyn pleidleisio drwy'r post yn ei gynnwys? 4
Beth mae asiant pleidleisio drwy'r post yn ei wneud? 5
Dyletswydd i gadw cyfrinachedd 5
Pryd fydd pleidleisiau post yn cael eu hagor a sut fyddwch chi'n gwybod pryd fydd sesiwn yn cael ei chynnal? 6
Siart llif o broses y sesiwn agor 7
Datganiadau pleidleisio drwy'r post annilys a rhai a wrthodwyd 8
Gorsafoedd pleidleisio 9
Pwy gaiff bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio? 9
Oriau agor gorsafoedd pleidleisio 10
Dod o hyd i leoliad gorsafoedd pleidleisio 10
Beth mae asiant pleidleisio yn ei wneud? 10
Cadw cyfrinachedd y bleidlais 11
Beth yw'r broses bleidleisio arferol? 11
Casglu'r pleidleisiau post o'r orsaf bleidleisio 12
Rhifwyr 12
Beth sy'n digwydd ar ôl i'r pleidleisio ddod i ben? 13
Y cyfrif 13
Beth mae asiant cyfrif yn ei wneud? 13
Pryd a ble fydd y cyfrif yn digwydd? 14
..... 16
..... 16
Beth os na fydd y bleidlais ar bapur pleidleisio yn glir? 16
Beth sy'n digwydd i'r gwaith papur ar ôl i'r canlyniad gael ei gyhoeddi? 17

2

Gwybodaeth ategol 19
Papurau pleidleisio amheus 19

Gwybodaeth hanfodol

Mae'r rhan hon o'r ddogfen yn cynnwys ein canllawiau ymgyrchu mewn isetholiad Senedd y DU ym Mhrydain Fawr.

Ceir gwybodaeth ategol, sydd o bosib ond yn berthnasol i rai ymgeiswyr, ar ddiwedd y ddogfen hon. Gellwch weld y canllawiau ategol trwy glicio ar y dolenni yn y ddogfen hon neu drwy glicio ar bennawd y bennod ar y dudalen gynnwys.

Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â'ch swyddfa Comisiwn leol os oes gennych unrhyw gwestiynau. Gweler ein Dogfen trosolwg am fanylion cyswllt.

Yn y ddogfen hon, rydym yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at yr ymgeisydd. Rydym yn defnyddio 'rhaid' pan fyddwn yn cyfeirio at ofynion penodol. Rydym yn defnyddio 'dylai' ar gyfer eitemau yr ydym yn eu hystyried yn arfer da, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol neu reoleiddiol.

Rydym wedi cynnwys dyddiadau cau generig drwy'r ddogfen i roi syniad o amseru ar gyfer y prif brosesau. Fodd bynnag dylech gael copi o'r amserlen penodol ar gyfer yr isetholiad gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)

Agor pleidleisiau post

1.1 Mae gennych chi, eich asiant etholiad a pherson a benodwyd gennych i fynychu yn lle eich asiant etholiad yr hawl i fynd i agoriad y pleidleisiau post a ddychwelwyd. Yn ychwanegol, gallwch benodi asiantiaid i fynychu sesiynau agor ar eich rhan. Gweler Rhan 2a: Sefyll fel ymgeisydd annibynnol neu Rhan 2b: Sefyll fel ymgeisydd plaid am fanylion sut i benodi'r asiantiaid hyn.

Nid oes gan ymgeiswyr, asiantiaid etholiad ac asiantiaid pleidleisiau drwy'r post yr hawl i fynychu **sesiynau anfon** pleidleisiau post.

4

Beth yw pleidleisio post?

1.2 Ym Mhrydain Fawr gall pobl 18 oed neu hŷn sydd wedi eu cofrestru, neu wedi gwneud cais i gael eu cofrestru, wneud cais i bleidleisio drwy'r post mewn etholiadau Senedd y DU drwy gyflwyno cais i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol. Rhaid i'r cais gael ei dderbyn gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn 5pm ar yr 11eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Gall y rhai sydd wedi eu penodi i bleidleisio fel dirprwy ar ran rhywun arall hefyd wneud cais am bleidlais drwy'r post drwy wneud cais erbyn 5pm ar yr 11eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Nid oes gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol unrhyw ddisgresiwn i ymestyn y dyddiad cau am ba bynnag reswm.

1.3 Bydd pecynnau pleidleisio drwy'r post yn cael eu hanfon at etholwyr 1-2 wythnos cyn y diwrnod pleidleisio. Ceir swp olaf o bleidleisiau drwy'r post a anfonwyd i etholwyr a gofrestrodd yn agos at y dyddiad cau cofrestru, unwaith y bydd eu henwau wedi cael eu hychwanegu at ddiweddariad y gofrestr derfynol ar y pumed diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

1.4 Bydd etholwyr wedyn yn cwblhau a dychwelyd eu pleidlais drwy'r post i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) cyn 10pm ar y diwrnod pleidleisio.

Beth mae'r pecyn pleidleisio drwy'r post yn ei gynnwys?

- **Amlen A** yw'r amlen y mae'r etholwr yn ei defnyddio i ddychwelyd ei bapur pleidleisio ynddi. Mae'n cael ei dynodi â'r llythyren 'A' a'r geiriau 'amlen papur pleidleisio'
- **Amlen B** yw'r amlen y mae'r etholwr yn ei defnyddio i ddychwelyd yr amlen papur pleidleisio a'r datganiad pleidleisio drwy'r post ynddi. Mae'n cael ei dynodi â'r llythyren 'B' a chyfeiriad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)
- Mae'r **datganiad pleidleisio drwy'r post** yn cynnwys enw'r etholwr, rhif y papur pleidleisio a anfonwyd iddynt, cyfarwyddiadau ar sut i bleidleisio drwy'r post, a man i'r etholwr lofnodi a rhoi ei ddyddiad geni
- **Y papur pleidleisio**

Os yw'r isetholiad yn cael ei gyfuno â phleidlais arall, efallai bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn penderfynu cyfuno'r gwaith o anfon pleidleisiau post.

Os felly, bydd y pecyn pleidlais drwy'r post hefyd yn cynnwys y papur pleidleisio ar gyfer y digwyddiad(au) etholiadol eraill.

Beth mae asiant pleidleisio drwy'r post yn ei wneud?

1.5 Mae gan yr asiant pleidleisio drwy'r post yr hawl i fynychu sesiynau agor pleidleisiau drwy'r post, sy'n cael eu rhedeg gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Ym mhob sesiwn agor bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn penderfynu a yw'r dyddiad geni a'r llofnod a roddwyd gan etholwyr ar eu datganiadau pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r llofnod a'r dyddiad geni a gyflwynwyd eisoes, ac sydd yn y cofnodion. Os na fyddant yn cyfateb, gwrthodir y bleidlais bost.

1.6 Mae gan asiant pleidleisio drwy'r post hawl i arsylwi ar y broses, ond nid i ymyrryd â hi. Fodd bynnag, gall asiant pleidleisio drwy'r post wrthwynebu penderfyniad Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i wrthod pleidlais bost. Ni fydd hyn yn effeithio ar benderfyniad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), ond bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn cofnodi unrhyw wrthwynebiadau trwy nodi ar y datganiad pleidleisio drwy'r post 'gwrthwynebwyd y gwrthodiad'.

1.7 Yn yr un modd â'ch asiantiaid pleidleisiau drwy'r post, mae gan eich asiant etholiad a'r person yr ydych wedi ei benodi i fynychu ar ran eich asiant etholiad hefyd yr hawl i wrthwynebu gwrthodiad.

1.8 Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn esbonio'r broses agor pleidleisiau post i chi ac efallai yn rhoi gwybodaeth i chi am y gweithdrefnau i'w dilyn, gan gynnwys cyfarwyddiadau ar yr hyn y gallwch ac na allwch ei wneud yn y sesiwn. Dylech gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi eu rhoi.

Dyletswydd i gadw cyfrinachedd

1.9 Byd papurau pleidleisio yun cael eu cadw wyneb i lawr drwy gydol y sesiwn agor pleidleisiau post. Ni ddylai unrhyw un sy'n mynychu sesiwn agor beidio â cheisio gweld sut mae unrhy bapurau pleidleisio unigol wedi'u marcio. Mae'n dilyn felly na cheir cadw tali o sut mae papurau pleidleisio wedi'u marcio

Hefyd ar gael yn ddwyieithog yn y Gymraeg a Saesneg.

1.10 Hefyd, ni ddylai unrhyw un sy'n mynydchu sesiwn agor pleidleisiau post geisio edrych ar farciau adnabod neu rifau ar bapurau pleidleisio, na datgelu sut y mae unrhyw bapur pleidleisio penodol wedi cael ei farcio, na throsglwyddo gwybodaeth o'r fath a gafwyd o'r sesiwn. Gall unrhyw un a geir yn euog o dorri'r gofynion hyn wynebu dirwy ddiderfyn neu garchar.

Pryd fydd pleidleisiau post yn cael eu hagor a sut fyddwch chi'n gwybod pryd fydd sesiwn yn cael ei chynnal?

1.11 Mae'n debygol y bydd nifer o sesiynau agor yn digwydd cyn diwrnod y bleidlais, yn ogystal ag ar y diwrnod pleidleisio ei hun.

1.12 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) roi 48 awr o rybudd o leiaf yn nodi pryd a ble y bydd y sesiynau yn digwydd. Bydd hefyd yn dweud wrthych faint o asiantiaid pleidleisio drwy'r post a fydd yn cael bod yn bresennol ym mhob sesiwn.

1.13 Bydd sesiwn agor derfynol ar ôl i'r pleidleisio ddod i ben er mwyn agor unrhyw bleidleisiau post a gyflwynwyd mewn gorsafoedd pleidleisio. Gall y sesiwn hon gael ei chynnal yn lleoliad y cyfrif neu mewn lleoliad arall. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn eich hysbysu o'r lleoliad ar gyfer y sesiwn agor derfynol.

Siart llif o broses y sesiwn agor

1.14 Gellir crynhoi'r broses agor pleidleisiau post fel a ganlyn:

Mae nifer fechan iawn o bleidleiswyr nad oes angen iddynt lofnodi eu datganiad pleidleisio drwy'r post. Bydd y pleidleiswyr yma wedi cael hepgoriad oherwydd nad ydynt yn medru llofnodi neu roi llofnod cyson oherwydd anabledd neu anallu i ddarllen neu ysgrifennu. Bydd y datganiad pleidleisio drwy'r post a anfonir i etholwyr o'r fath yn dangos hyn yn glir.

Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn paru'r dogfennau pleidleisio drwy'r post a dderbyniwyd ar wahân, ar yr amod bod y datganiad wedi ei gwblhau yn gywir a'i dderbyn erbyn i'r bleidlais gau.

Rhaid cadw papurau pleidleisio wyneb i lawr drwy gydol y broses hon.

8

8 Os yw'r datganiad **neu'r** amlen papur pleidleisio ar goll, neu nad yw'r rhifau ar y datganiad a'r amlen papur pleidleisio yn cyfateb, bydd y ddogfen (dogfennau) yn cael eu rhoi o'r neilltu, eu cofnodi a'u cadw mewn pecynnau diogel

9 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddilysu'r dyddiadau geni a llofnodion a ddarperir ar y datganiadau

10 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) fod yn fodlon bod y dyddiadau geni a'r llofnodion ar y datganiadau yn cyfateb i'r rhai a roddwyd eisoes ac sy'n cael eu dal ar y cofnodion

11 Wedi dilysu'r llofnodion a'r dyddiadau geni, bydd y datganiadau pleidleisio drwy'r post yn cael eu symud oddi ar y byrddau

12 Bydd y staff yn agor pob amlen papur pleidleisio (amlen A) ac yn tynnu'r papur pleidleisio allan

13 Bydd y staff yn gwirio bod y rhif ar gefn y papur pleidleisio yn cyfateb i'r rhif ar yr amlen papur pleidleisio (amlen A)

14 Bydd papurau pleidleisio dilys (**nid** pleidleisiau) yn cael eu cyfrif a chofnodir y cyfanswm

15 Rhoddir yr holl bapurau pleidleisio dilys yn y blychau pleidleisio a'u storio yn ddiogel cyn cael eu cludo i leoliad y cyfrif i'w cyfrif ar ôl i'r pleidleisio gau

Papurau pleidleisio **dilys** yw'r papurau pleidleisio hynny y mae eu datganiad pleidleisio drwy'r post cysylltiedig wedi llwyddo yn y gwiriadau llofnod a dyddiad geni.

Rhoddir papurau pleidleisio annilys o'r neilltu a'u storio mewn pecynnau.

Datganiadau pleidleisio drwy'r post annilys a rhai a wrthodwyd

1.15 Oni bai bod hepgoriad wedi ei ganiatáu, bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn gwrthod pob datganiad pleidleisio drwy'r post os yw'r llofnod a/neu ddyddiad geni ar goll neu os nad yw'r llofnod a/neu ddyddiad geni yn cyfateb i'r

un a roddwyd yn flaenorol gan yr etholwr ac sy'n cael ei ddal ar y cofnodion.

1.16 Mae datganiadau a wrthodwyd yn cael eu rhoi ynghlwm wrth y papur pleidleisio neu amlen papur pleidleisio perthnasol. Maent yn cael eu marcio â 'gwrthodwyd' ac fe'u dangosir i unrhyw asiantiaid sy'n bresennol.

1.17 Gall asiantiaid wrthwynebu penderfyniad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i wrthod pleidlais bost ac, os gwnânt hynny, bydd y geiriau 'gwrthwynebwyd y gwrthodiad' yn cael eu hychwanegu ati. Fodd bynnag, mae penderfyniad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn derfynol a bydd y bleidlais bost yn parhau wedi'i gwrthod.

Gorsafoedd pleidleisio

1.18 Gallwch chi a'ch asiant etholiad arsylwi ar y gweithrediadau tu mewn i orsafoedd pleidleisio. Yn ychwanegol, gallwch benodi asiantiaid i fynychu gorsafoedd pleidleisio ar eich rhan. Gweler Rhan 2a: Sefyll fel ymgeisydd annibynnol neu Rhan 2b: Sefyll fel ymgeisydd plaid am fanylion sut i benodi asiantiaid pleidleisio.

Pwy gaiff bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio?

1.19 Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dewis pleidleisio yn eu gorsaf bleidleisio. Gall unrhyw berson sydd ar gofrestr etholiadol yr orsaf bleidleisio fwrw eu pleidlais yn yr orsaf bleidleisio mewn etholiad Senedd y DU, oni bai:

- eu bod yn bleidleisiwr drwy'r post cofrestredig
- eu bod yn bleidleisiwr drwy ddirprwy cofrestredig a bod eu dirprwy eisoes wedi pleidleisio drostynt neu wedi gwneud cais i bleidleisio ar eu rhan drwy'r post
- nad ydynt yn 18 oed neu hŷn ar ddiwrnod y bleidlais
- eu bod yn arglwydd yn Nhŷ'r Arglwyddi
- eu bod yn ddinesydd yr Undeb Ewropeaidd (heblaw am ddinasyddion y DU, Gweriniaeth Iwerddon, Cyprus a Malta, sydd â hawl i bleidleisio mewn etholiad Senedd y DU)

Yr unig etholwyr sydd angen dod â'u cerdyn pleidleisio gyda nhw i bleidleisio yw'r rhai sydd wedi cofrestru yn ddienw oherwydd risg i'w diogelwch.

1.20 Bydd etholwyr yn derbyn cerdyn pleidleisio cyn yr etholiad yn dweud ble a phryd y gallant bleidleisio. Nid oes angen i etholwyr fynd â'u cerdyn pleidleisio i'r orsaf bleidleisio er mwyn pleidleisio.

Bydd unrhyw bleidleiswyr sy'n aros mewn ciw yn eu gorsaf bleidleisio am 10pm yn cael yr hawl i bleidleisio, hyd yn oed os nad ydynt wedi derbyn papur pleidleisio.

1.21 Ni ellir rhoi papur pleidleisio i bleidleiswyr drwy'r post cofrestredig yn yr orsaf bleidleisio, ond gallant ddychwelyd pecyn pleidleisio drwy'r post i'w gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais. Fel arall, gallant ddychwelyd y bleidlais bost i orsafoedd pleidleisio penodol eraill yn yr etholaeth (gall y swyddfa etholiadau roi manylion) neu â llaw i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn y swyddfa etholiadau. Rhaid i becynnau pleidleisio drwy'r post a ddychwelir i orsafoedd pleidleisio gael eu rhoi i staff yr orsaf bleidleisio ac nid eu rhoi yn y blwch pleidleisio.

Er y gall asiant pleidleisio arsylwi ar y bleidlais, nid oes rhaid iddynt fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio er mwyn i bleidleisio a gweithdrefnau cysylltiedig ddigwydd.

Oriau agor gorsafoedd pleidleisio

1.22 Bydd gorsafoedd pleidleisio ar agor ar ddiwrnod y bleidlais rhwng 7am a 10pm.

Cambersonadu yw pan fydd unigoln yn pleidleisio fel rhywun arall (p'un a yw'r person hwnnw'n fyw, yn farw neu'n ffug).

Dod o hyd i leoliad gorsafoedd pleidleisio

1.23 Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn rhoi hysbysiad cyhoeddus o leoliad y gorsafoedd pleidleisio ar ôl y dyddiad cau ar gyfer danfon papurau enwebu. Byddant yn rhoi copi o'r hysbysiad hwn i asiantiaid etholiadol yn fuan wedi hyn.

Ni ellir rhoi sêl asiant pleidleisio ynghlwm wrth flychau pleidleisio ar gychwyn pleidlais nac yn ystod y bleidlais.

Beth mae asiant pleidleisio yn ei wneud?

1.24 Mae gan asiantiaid pleidleisio nifer o rolau pwysig i'w chwarae ar ddiwrnod y bleidlais. Gallant:

- fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio cyn i'r bleidlais agor i wylio'r Swyddog Llywyddu yn dangos y blychau pleidleisio gwag cyn iddynt gael eu selio
- ddatgelu cam-bersonadu ac atal pobl rhag pleidleisio fwy nag unwaith mewn etholiad (heblaw fel dirprwyon)
- fod yn bresennol pan fydd y Swyddog Llywyddu yn marcio papur pleidleisio ar gais etholwr sydd angen help i farcio papur pleidleisio oherwydd anabledd neu anallu i ysgrifennu neu ddarllen

Am ragor o wybodaeth gweler: Gofynion cyfrinachedd - y bleidlais
Hefyd ar gael yn ddwyieithog yn y Gymraeg a Saesneg

- roi adroddiad i chi neu eich asiant etholiad am unrhyw weithgareddau amhriodol a chadw nodiadau, os oes angen, ar gyfer rhoi tystiolaeth yn y llys
- fod yn bresennol ar ddiwedd y bleidlais pan fydd y pecynnau amrywiol o ddogfennau yn cael eu selio
- roi eu sêl ar unrhyw becynnau a wneir gan y Swyddog Llywyddu ar ôl i'r bleidlais ddod i ben, gan gynnwys y blwch pleidleisio

1.25 Gallwch chi a'ch asiant etholiad hefyd wneud unrhyw beth y mae gan asiant pleidleisio yr hawl i'w wneud.

Pan fo'r etholiad wedi cael ei gyfuno â digwyddiad etholiadol arall, bydd staff yr orsaf bleidleisio yn rhoi papurau pleidleisio ar gyfer pob digwyddiad etholiadol.

Gall digwyddiadau etholiadol gwahanol fod â gofynion etholfraint gwahanol, felly weithiau ni fydd etholwr â'r hawl i bleidleisio ym mhob un o'r etholiadau sy'n digwydd.

Pan fo etholiadau'n cael eu cyfuno, gellir defnyddio blwch pleidleisio unigol ar gyfer pob un o'r etholiadau, neu gellir defnyddio un blwch pleidleisio ar gyfer pob etholiad ar wahân.

Cadw cyfrinachedd y bleidlais

1.26 Mae gan unrhyw un sy'n mynychu gorsaf bleidleisio ddyletswydd i gadw cyfrinachedd y bleidlais. Yn benodol, rhaid peidio â datgelu'r wybodaeth ganlynol:

- enw neu rif etholiadol y sawl sydd wedi pleidleisio neu heb bleidleisio
- y rhif neu farc adnabod unigryw arall ar y papur pleidleisio

1.27 Rhaid i chi hefyd beidio â cheisio casglu sut y mae pleidleisiwr wedi pleidleisio neu i bwy y maent ar fin pleidleisio.

1.28 Gall asiant pleidleisio nodi ar ei gopi o'r gofrestr etholwyr y pleidleiswyr sydd wedi gwneud cais am bapurau pleidleisio. Os yw'r asiant pleidleisio yn gadael yr orsaf bleidleisio yn ystod oriau pleidleisio, rhaid iddynt adael y copi o'r gofrestr wedi ei marcio yn yr orsaf bleidleisio er mwyn sicrhau na fydd gofynion cyfrinachedd yn cael eu torri.

1.29 Gall unrhyw un a geir yn euog o dorri'r gofynion hyn wynebu dirwy ddiderfyn neu garchar.

Beth yw'r broses bleidleisio arferol?

1.30 Mae'r broses bleidleisio arferol mewn gorsaf bleidleisio yn syml a gellir ei chrynhoi fel a ganlyn:

Bydd staff gorsafoedd pleidleisio yn...

- gofyn i bleidleiswyr am eu henw a'u cyfeiriad, ac yn sicrhau eu bod yn gymwys i bleidleisio
- marcio llinell syth gyferbyn â chofnod y pleidleisiwr ar y gofrestr etholwyr

- galw ar goedd rif ac enw'r etholwr
- ysgrifennu rhif yr etholwr ar restr nesaf at y rhif ar y papur pleidleisio sydd i'w roi
- sicrhau bod y papur pleidleisio yn cynnwys y marc swyddogol (e.e. cod bar neu ddyfrnod)
- plygu'r papur pleidleisio ac yna ei drosglwyddo i'r pleidleisiwr **heb ei blygu** fel y gall weld yr holl ddewisiadau ar y papur pleidleisio

Bydd y pleidleisiwr yn...

- marcio'r papur pleidleisio yn breifat yn y bwth pleidleisio
- plygu'r papur pleidleisio a dangos rhif y papur pleidleisio a'r marc adnabod unigryw ar gefn y papur pleidleisio i'r Swyddog Llywyddu
- rhoi'r papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio a gadael yr orsaf bleidleisio

1.31 Gall y Swyddog Llywyddu gynorthwyo unrhyw un sy'n methu marcio'r papur pleidleisio ei hun. Fel arall, gall pleidleisiwr ddod â rhywun y mae'n ei adnabod ac yn ymddiried ynddo gydag ef/hi i'w gynorthwyo i farcio ei bleidlais. Rhaid i'r person sy'n cynorthwyo'r pleidleisiwr fod naill ai'n berthynas agos dros 18 oed, neu'n berson sydd â hawl i bleidleisio yn yr etholiad. Gall person gynorthwyo dau berson ar y mwyaf yn yr etholiad.

Y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) sy'n gyfrifol am gynnal yr isetholiad. Os yw'n bryderus am weithgareddau rhifwyr, gall ofyn i'r rhifwyr gydymffurfio â'r ymddygiad cytunedig neu adael y man pleidleisio.

Casglu'r pleidleisiau post o'r orsaf bleidleisio

1.32 Gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) drefnu i gasglu unrhyw bleidleisiau post y mae etholwyr wedi eu rhoi i mewn yn yr orsaf bleidleisio trwy gydol diwrnod y bleidlais. Rhaid i'r Swyddog Llywyddu selio unrhyw bleidleisiau post a ddychwelwyd mewn pecyn cyn iddynt gael eu casglu. Gall unrhyw asiant sy'n bresennol ychwanegu ei sêl ei hun at y pecyn os yw'n dymuno.

Rhifwyr

1.33 Gwirfoddolwyr i ymgeiswyr yw rhifwyr sy'n sefyll tu allan i orsafoedd pleidleisio ac yn cofnodi rhifau pleidleiswyr y pleidleiswyr sydd wedi pleidleisio. Gallant ddynodi cefnogwyr

tebygol sydd heb bleidleisio a'u hannog i bleidleisio cyn i'r bleidlais gau.

1.34 Nid oes gan rifwyr unrhyw statws cyfreithiol a gall pleidleiswyr wrthod rhoi gwybodaeth iddynt.

1.35 Rydym wedi cynhyrchu taflen ffeithiau gair i gall i rifwyr, yn ogystal â chanllawiau ar weithgareddau rhifwyr sy'n fwy cynhwysfawr. Nod y canllawiau yw sicrhau bod pawb yn gwybod yn union beth sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol ac fe'u dyluniwyd i hyrwyddo safonau ymddygiad priodol. Gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) hefyd roi canllawiau ei hun i'r rhifwyr.

Beth sy'n digwydd ar ôl i'r pleidleisio ddod i ben?

1.36 Unwaith y bydd yr holl bleidleiswyr a dderbyniodd bapur pleidleisio wedi pleidleisio, caiff y blwch pleidleisio ei selio gan y Swyddog Llywyddu, a gall asiantiaid pleidleisio, ymgeiswyr neu asiantiaid etholiadol ychwanegu eu sêl eu hunain os ydynt yn dymuno. Ar ôl i'r Swyddog Llywyddu gwblhau'r holl waith papur, mae'r blwch pleidleisio wedi'i selio yn cael ei gludo i leoliad y cyfrif.

Y cyfrif

1.37 Mae gennych chi a'ch asiant etholiad hawl i fynychu'r cyfrif. Yn ychwanegol, gallwch wahodd un person arall i fynychu'r cyfrif a gallwch hefyd benodi asiantiaid i fynychu'r cyfrif ar eich rhan.

1.38 Gweler Rhan 2a - Sefyll fel ymgeisydd annibynnol neu Rhan 2b - Sefyll fel ymgeisydd plaid am fanylion ar y nifer o asiantiaid cyfrif i'w penodi a sut i'w penodi.

Beth mae asiant cyfrif yn ei wneud?

1.39 Mae gan asiantiaid cyfrif nifer o rolau pwysig i'w chwarae yn y cyfrif:

- Maent yn arsylwi ar y broses gyfrif a sicrhau ei bod yn gywir.

- Gallant dynnu sylw staff y cyfrif at unrhyw bapurau pleidleisio amheus.
- Os ydynt yn anghytuno â phenderfyniad gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i wrthod papur pleidleisio, gallant ofyn i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) farcio'r papur pleidleisio "gwrthwynebwyd y gwrthodiad".
- Os yw'r cyfrif yn cael ei ohirio am unrhyw reswm, gall asiantiaid cyfrif ychwanegu eu sêl pan fo'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn selio'r blychau pleidleisio a'r amlenni.

1.40 Gallwch chi a'ch asiant etholiad wneud unrhyw beth y mae gan asiant cyfrif yr hawl i'w wneud.

Pryd a ble fydd y cyfrif yn digwydd?

1.41 Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn eich hysbysu o'r union amser a lleoliad. Rhaid i bob Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gymryd camau rhesymol i gwblhau dilysu a dechrau cyfrif y pleidleisiau cyn gynted ag y bo'n ymarferol o fewn pedair awr ar ôl i'r bleidlais gau.

1.42 Lle nad yw hyn yn digwydd yn ymarferol - er enghraifft, oherwydd lefelau uwch na'r disgwyl yn y nifer a bleidleisiodd, ciwiau mewn gorsafoedd pleidleisio ar ddiwedd y bleidlais, cyfuo'r isetholiad Senedd y DU gydag etholiadau eraill, neu ddaearyddiaeth benodol etholaeth - yna rhaid i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) adrodd am hyn i'r Comisiwn.

1.43 Er ei bod yn bwysig bod cyfrif yn amserol, mae hefyd yn bwysig bod y cyfrif yn cynhyrchu canlyniad cywir y gall pawb fod â hyder ynddo.

Sut y cyfrir y pleidleisiau

Derbyn

1 Staff y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn cludo'r blychau pleidleisio o'r gorsafoedd pleidleisio i leoliad y cyfrif

2 Staff y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn derbyn y blychau pleidleisio wrth iddynt gyrraedd lleoliad y cyfrif

Dilysu



Lle bo isetholiad wedi cyfuno gydag etholiad arall ar yr un diwrnod, gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) benderfynnu cychwyn cyfrif y pleidleisiau ar gyfer isetholiad Senedd y DU cyn bod dilysu'r holl bapurau pleidleisio wedi cwblhau. Fodd bynnag, gallant ond gyhoeddi canlyniad isetholiad Senedd y DU unwaith i'r holl bapurau gael eu dilysu.

Gall un blwch pleidleisio fod ar gyfer yr holl etholiadau neu gellir cael blwch ar wahân i bob un. Ym mhob achos bydd y papurau pleidleisio yn cael eu trefnu yn ôl y gwahanol etholiadau.

Bydd unrhyw bapur pleidleisio a geir yn y blwch pleidleisio 'anghywir' yn dal yn ddilys a bydd yn cael ei symud i'r blwch cywir yn ystod y dilysu.

Cyfrif y pleidleisiau

9 Staff yn didoli'r papurau pleidleisio yn ôl ymgeisydd

10 Staff yn cyfrif nifer y pleidleisiau a fwriwyd i bob ymgeisydd

11 Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn rhannu'r canlyniad dros dro gyda chi a'r asiantiaid. Gallwch chi neu eich asiant etholiad ofyn i'r Swyddog Canlyniadau (gweithredol) ail gyfrif y pleidleisiau

12 Gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wrthod ail gyfrif os yw'n credu bod y cais yn afresymol

Os yw isetholiad Senedd y DU yn cael ei gyfuno ag etholiadau eraill ac nad yw'r cyfrif ar gyfer yr etholiadau hynny'n digwydd yn syth ar ôl dilysu, bydd y blychau a ddilyswyd yn cael eu storio yn ddiogel. Gall ymgeiswyr ac asiantiaid roi eu sêl ynghlwm wrth y blychau os dymunant.

Beth os na fydd y bleidlais ar bapur pleidleisio yn glir?

1.44 Ni fydd papur pleidleisio yn cael ei gyfrif os:

- nad yw wedi ei farcio
- nad yw'n cynnwys y marc swyddogol
- yw'n cynnwys pleidleisiau i fwy nag un ymgeisydd
- yw'n cynnwys unrhyw farc neu ysgrifen a all olygu y gellid adnabod y pleidleisiwr
- nad yw'n dynodi bwriad y pleidleisiwr yn bendant

1.45 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) lunio datganiad yn dangos y nifer o bapurau pleidleisio a wrthodwyd am y rhesymau hyn.

1.46 Os yw bwriad y pleidleisiwr yn glir ar bapur pleidleisio ac na ellir adnabod y pleidleisiwr trwy unrhyw farc neu ysgrifen, ni fydd yn ddi-rym os oes pleidlais wedi ei nodi:

- yn rhywle heblaw'r man priodol
- trwy fodd arall heblaw croes (e.e. tic)
- trwy fwy nag un marc

1.47 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) nodi'r gair "gwrthodwyd" ar unrhyw bapur pleidleisio a wrthodir. Rhaid iddo ychwanegu'r geiriau "gwrthwynebwyd y gwrthodiad" os bydd asiant cyfrif yn gwrthwynebu penderfyniad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Am fwy o fanylion ar farnu ar bapurau pleidleisio amheus, gweler paragraff **1.49**.

Pleidleisiau cyfartal

13 Os oes gan ddau neu fwy o ymgeiswyr yr un nifer o bleidleisiau, ac y byddai pleidlais bellach i'r naill neu'r llall yn gweld yr ymgeisydd yn cael ei ethol, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) benderfynu rhyngddynt trwy fwrw coelbren.

Y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) fydd yn penderfynu ar y dull o fwrw coelbren.

Datgan y canlyniad

14 Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn datgan bod yr ymgeisydd gyda'r nifer fwyaf o bleidleisiau wedi ei ethol

15 Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn rhoi hysbysiad cyhoeddus o'r canlyniad.

16 Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn cyhoeddi hysbysiad gydag enw'r ymgeisydd a etholwyd, y nifer o bleidleisiau i bob ymgeisydd, a'r nifer o bapurau pleidleisio a wrthodwyd.

Mae rhai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yn caniatáu i ymgeiswyr wneud areithiau ar ôl i'r canlyniad gael ei ddatgan. Gwiriwch y trefniadau gyda'ch Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

Beth sy'n digwydd i'r gwaith papur ar ôl i'r canlyniad gael ei gyhoeddi?

1.48 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) selio holl ddogfennau'r etholiad, ac ychwanegu disgrifiad o gynnwys pob pecyn. Yng Nghymru a Lloegr, bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn eu hanfon ymlaen at y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Yn yr Alban, mae'r dogfennau'n cael eu cadw gan y ymlaen at y Swyddog Canlyniadau.

Am fanylion beth sy'n digwydd ar ôl i'r canlyniad gael ei gyhoeddi gweler:

Rhan 6 - Ar ôl datgan y canlyniad

Gwybodaeth ategol

Papurau pleidleisio amheus

1.49 Er mwyn cynorthwyo Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol), rydym wedi cynhyrchu canllawiau ar sut i ddyfarnu ynglŷn â phleidleisiau ar bapurau pleidleisio sy'n ymddangos yn rhai amheus. Ceir y canllawiau hyn yn ein llyfryn Ymdrin â phapurau pleidleisio amheus, y gall Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) gyfeirio ato yn y cyfrif. Rydym hefyd wedi cynhyrchu mat lle o bleidleisiau a ganiateir ac a wrthodir, er mwyn cyfeirio ato'n gyflym.

1.50 Mae'r enghreifftiau a roddir yn y dogfennau hyn yn seiliedig ar y rheolau etholiad. Sylwer, tra bo'r dogfennau hyn yn cynnig canllawiau i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol), erys y cyfrifoldeb yn y pen draw â phob Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) unigol i wneud penderfyniad ar bapurau pleidleisio unigol. Mae ei benderfyniad i wrthod papur pleidleisio penodol yn ystod y cyfrif neu'r ail gyfrif yn derfynol, ac ni ellir ei adolygu ond trwy ddeiseb etholiad ar ôl datgan y canlyniad. Am ragor o wybodaeth ar ddeisebau etholiad, gweler Rhan 6: Ar ôl datgan y canlyniad.